

COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR CRAFFU DYSGU GYDOL OES
A GYNHALIWDYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF AR
DYDD IAU, 21 CHWEFROR 2019

AELODAU

Y Cynghorydd Carrie Harper, Cadeirydd
*Y Cynghorydd Michael Dixon, Is-Gadeirydd

Y Cynghorydd	Sonia Benbow-Jones	Y Cynghorydd	* John McCusker
"	* Dana Davies	"	Beverley Parry-Jones
"	Frank Hemmings	"	Rondo Roberts
"	R Alun Jenkins	"	Debbie Wallice
"	Paul Jones	"	* Robert Walsh
"	Tina Mannering		

Mr Brendan McDonald - Cynrychiolydd yr Eglwys

Mrs Alison Fisher - Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr

Mr Brent Evans - Cyfetholedig*

*Yn absennol

Hefyd yn bresennol – Y Cynghorwyr Phil Wynn

34 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Dana Davies, Michael Dixon, John McCusker a Robert Walsh a'r aelod cyfetholedig Mr Brent Evans.

35 DATGANIADAU O GYSYLLTIADAU PERSONOL, OS OES RHAI

Atgoffwyd yr Aelodau o'u cyfrifoldeb, dan baragraff 11 Cod Ymddygiad yr Aelodau, i ddatgan unrhyw gysylltiad mewn perthynas ag unrhyw un o'r eitemau i'w trafod yn y cyfarfod hwn. Gwnaed y datganiadau canlynol:

Eitem 5 – Cynghorwyr Tina Mannering a Beverley Parry-Jones – Cysylltiad Personol ac un sy'n rhagfarnu – Llywodraethwyr Ysgol. Arhosodd y Cynghorwyr yn y cyfarfod gan hawlio eithriad o dan Erthygl 12(2) Cod Ymddygiad yr Aelodau, gan gymryd rhan yn y drafodaeth a phleidleisio wedi hynny.

36 CADARNHAU COFNODION

CYTUNWYD – Y dylid llofnodi Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2019 fel cofnod cywir.

37 RHAGLEN WAITH

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid adroddiad (HF/17/19s) i gynorthwyo'r Pwyllgor i ystyried a chytuno ar ei raglen waith. Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad a chyfeiriwyd

at y canlynol:

- Byddai'r ymateb drafft i gwestiynau a holwyd o dan fframwaith Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol yn cael eu hystyried fel y bo angen.
- Fe nodwyd cwmpas ar gyfer Grŵp Tasg a Gorffen Defnydd o Adeilad Ysgol Groves

CYTUNWYD – Cymeradwyo'r rhaglen waith.

38

LEFELAU O WAHARDDIADAU CYFNOD PENODOL/ PARHAOL AC YMGYSYLLTIAD ADDYSG GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID

(Mae datganiadau o gysylltiad Aelodau â'r eitem hon yng Nghofnod 35 uchod)

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Pobl – Addysg adroddiad (HEd/04/19s) i ddarparu adroddiad monitro i'r Pwyllgor Craffu ar lefelau'r gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol yn Wrecsam a sut mae hyn yn cymharu â data cymharol Cymru gyfan a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiad hefyd yn darparu data ar y dangosydd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid. Cyflwynwyd Ffigur 3 diwygiedig – Nifer y Gwaharddiadau dros 5 diwrnod 2012/13 – 2017/18.

Nododd yr aelodau bod y lefel o waharddiadau cyfnod penodol wedi cynyddu a thynnwyd sylw ato fel maes o flaenoriaeth yng Nghynllun Busnes 2019-20 yr adran. Fe nodwyd hefyd bod gan gyfran o'r disgyblion oedd wedi'u gwahardd anghenion dysgu ychwanegol a bod rhagor o waith yn mynd rhagddo mewn cysylltiad â hyn. Byddai'r Pwyllgor yn cael clywed mwy am hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol. Fe gydnabuwyd bod dylanwadau y tu allan i'r ysgol yn aml yn gysylltiedig ag ymddygiad sy'n tarfu ar eraill yn yr ysgol.

Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad a chyfeiriwyd at y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Rhoddwyd sicrwydd bod y system i adrodd gwaharddiadau'n gadarn.
- Pwysigrwydd arweinyddiaeth mewn ysgolion. Dywedodd y Pennaeth Addysg bod yna dystiolaeth i awgrymu cynnydd tymor byr mewn gwaharddiadau ar ôl penodi Pennaeth newydd o ganlyniad i ddyheadau cynyddol a systemau a gweithdrefnau newydd.
- Gofynnwyd a oedd yr amseroedd aros cynyddol am atgyfeiriadau i CAMHS yn effeithio ar ymddygiad mewn ysgolion. Roedd y Pennaeth Addysg yn cydnabod bod y rhestrau aros ar gyfer CAMHS yn uchel, ond pwysleisiodd bod gan yr awdurdod lleol berthynas weithredol wych gyda'r Bwrdd Iechyd a CAMHS. Roedd yn bwysig sicrhau bod gwasanaethau cwnsela ac ymyriadau a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol yn cael eu cynnal. Roedd cynllun pilot gan CAMHS i gynnal hyfforddiant yn yr ysgol er mwyn helpu athrawon i adnabod materion posibl a'u cyfeirio at wasanaethau priodol yn cael ei gyflwyno.
- Rôl y rhieni wrth sicrhau bod ffiniau ymddygiad disgyblion, fel y gosodwyd gan ysgolion, yn cael eu parchu.
- Pwysigrwydd ymagwedd gyson mewn dosbarthiadau tuag at lefelau o ymddygiad derbyniol.

- Fe nodwyd nad oedd hi'n bosibl cymharu lefelau gwaharddiad cyfnod penodol ysgolion oherwydd eu demograffeg a pholisïau ymddygiad gwahanol.
- Doedd dim tystiolaeth y byddai gan ysgol oedd yn tangyflawni gyfraddau uchel o waharddiad.
- Darparwyd rhagor o wybodaeth ynghlŷn â'r canllawiau a ddarparwyd i ysgolion gan yr awdurdod lleol ynghylch seiberfwlio.
Fe nodwyd bod digwyddiadau o seiberfwlio yn aml yn digwydd y tu allan i oriau'r ysgol. Fe soniodd y Pennaeth Addysg wrth y Pwyllgor am brosiect ar y gweill gan Senedd yr Ifanc mewn perthynas â bwlio a dywedodd y byddai'n dosbarthu'r wybodaeth i aelodau'r Pwyllgor.
- Dywedodd yr Aelod Arweiniol bod angen rhagor o waith i adnabod a oedd yna gysylltiad rhwng ysgolion oedd â lefelau staffio is yn sgil gorfod rheoli'r gyllideb ac achosion o wahardd.
- Fe nodwyd bod yr adran Addysg yn darparu cymorth a chyngor i ysgolion i geisio cadw cyfraddau gwahardd mor isel â phosibl.
- Pwysigrwydd hyfforddi Llywodraethwyr ysgolion i sicrhau bod y polisïau ymddygiad yn cael eu defnyddio mewn modd clir a chyson.
- Fe nodwyd bod cyfalaf wedi cael ei roi i ddwy ysgol uwchradd i agor canolfannau ymddygiad ac i un ysgol gynradd i agor canolfan feithrin
- Rhoddwyd polisïau diwygiedig i ysgolion gyda'r nod o leihau'r lefel o symud o ysgol i ysgol
- Croesawyd ymagwedd amlasiantaeth y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid
- Fe nodwyd bod y lefel o bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith, addysg neu hyfforddiant yn Wrecsam ymysg yr isaf yng Nghymru.
- Pwysigrwydd sicrhau fod pobl ifanc oedran ysgol statudol yn cael cynnig 25 awr o addysg.

CYTUNWYD -

- (i) **Diolch i'r Aelod Arweiniol a'r Swyddogion am yr adroddiad a'r cyflwyniad.**
- (ii) **Cefnogi'r gweithredoedd yn yr adroddiad i fynd i'r afael â'r materion cysylltiedig.**
- (iii) **Bod yr adroddiad diweddariad nesaf ar y mater hwn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch:**
 - a) **Manylion cynllun peilot CAMHS ar gyfer darparu hyfforddiant yn yr ysgol, a'i effaith.**
 - b) **Darparu gwybodaeth i gysylltu, os yn bosibl, cyfraddau'r cyllid a lefelau o waharddiadau.**

Y Cyngorydd Carrie Harper
Cadeirydd